

Ffurflen Flynyddol Cyngorau Cymuned a Chyngorau Tref yng Nghymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2019

DEWIS IAITH

Nodwch sut yr hoffech i ni gyfathrebu â chi yn ystod yr archwiliad. Noder y bydd hysbysiadau archwilio yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.


	le	Na		le	Na		le	Na
CYMRAEG			SAESNEG			DWYIEITHOG	✓	

Y CYFRIFON A'R BROSES ARCHWILIO

Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i gyngorau cymuned a chyngorau tref (a'u cyd-bwyllgorau) yng Nghymru lunio eu cyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth a sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio'r cyfrifon hynny. Mae Rheoliad 14 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i gyrrff llywodraeth leol llai h.y. y rhai hynny ag incwm a gwariant sy'n llai na £2.5 miliwn baratoi eu cyfrifon yn unol â'r arferion priodol.

Nodir yr arferion priodol ar gyfer cyngorau cymuned a chyngorau tref a'u cyd-bwyllgorau yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol 'Governance and accountability for local councils in Wales – A Practitioners' Guide' (y Canllaw i Ymarferwyr). Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi eu cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol. Mae'r ffurflen flynyddol hon yn bodloni gofynion y Canllaw i Ymarferwyr.

Mae'r cyfrifon a'r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.



Darllenwch y canllawiau ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol hon a chwblhewch bob adran mewn coch gan gynnwys DWY adran y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

CYMERADWYO'R FFURFLEN FLYNYDDOL

Mae dau flwch i'w hardystio a'u cymeradwyo gan y corff. Mae'r ail flwch yn ofynnol dim ond os oes angen diwygio'r ffurflen flynyddol o ganlyniad i'r archwiliad. Dylech lenwi'r blwch uchaf yn unig cyn anfon y ffurflen at yr archwilydd.

Mae'n rhaid i'r cyngor gymeradwyo'r ffurflen flynyddol CYN i'r cyfrifon a'r dogfennau ategol fod ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus o dan adran 30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fydd yn cwblhau Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. NI CHAIFF y Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol, y Cadeirydd na'r archwilydd mewnol eu cwblhau.

Caiff ffurflenni a archwiliwyd ac a ardystiwyd eu dychwelyd i'r corff at ddibenion cyhoeddi ac arddangos y datganiadau cyfrifyddu, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Datganiadau cyfrifyddu 2018-19 ar gyfer:

Enw'r corff:

Nodwch enw'r corff **CYMNED LLANYCIL**

	Y flwyddyn a ddaeth i ben		Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon
	31 Mawrth 2018 (£)	31 Mawrth 2019 (£)	Dylech dalgrynnu'r holl ffigurau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag na chofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigur fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.

Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau

1. Balansau a ddygwyd ymlaen	879	1503	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â Llinell 7 y flwyddyn flaenorol.
2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll	4000	4000	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff.
3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill	1398	228	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod llai'r symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a referniw.
4. (-) Costau staff	1098	1166	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig, e.e. costau terfynu.
5. (-) Llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf	DIM	DIM	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl).
6. (-) Cyfanswm taliadau eraill	3676	2516	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod llai costau staff (Llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (Llinell 5).
7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	1503	2049	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) - (4+5+6).

Datganiad o falansau

8. (+) Dyledwyr a balansau stoc	DIM	DIM	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff a balansau stoc a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn.
9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau	1503	2049	Pob cyfrif: Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â chysoniad y banc.
10. (-) Credydwyr	DIM	DIM	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn.
11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	1503	2049	Dylai cyfanswm y balansau fod yn gyson â llinell 7 uchod: Nodwch gyfanswm (8+9-10).
12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor	3401	4536	Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth.
13. Cyfanswm benthyciadau	DIM	DIM	Balans cyfalaf dyledus pob benthygiad o drydydd partion ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB).

14. Nodyn datgelu cronfeydd ymddiriedolaeth	Ydy	Nac ydy	Amh.	Ydy	Nac ydy	Amh.	Mae'r corff yn gweithredu fel unig ymddiriedolwr ac mae'n gyfrifol am reoli (a) cronfa/cronfeydd ymddiriedolaeth/ asedau (dylai darllenwyr nodi nad yw'r ffigurau uchod yn cynnwys unrhyw drafodion ymddiriedolaeth).
			✓			✓	

Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1)

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytunwyd?		Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Dangosydd Perfformiad			
	Do	Naddo*					
1. Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> gwaith rheoli ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. 	✓		Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel y rhagnodir gan y gyfraith.	6, 12			
2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.	✓		Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth.	6, 7			
3. Rydym wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol.	✓		Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.	6			
4. Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.	✓		Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â diddordeb archwilio cyfrifon y corff yn unol â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r archwiliad.	6, 23			
5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.	✓		Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff a delio â hwy'n briodol.	6, 9			
6. Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.	✓		Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.	6, 8			
7. Rydym wedi ystyried a oes unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.	✓		Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol.	6			
8. Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilywyr mewnol ac allanol.	✓		Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilywyr mewnol ac allanol.	6, 8, 23			
9. Cronfeydd ymddiriedolaeth – yn rhinwedd ein swydd fel ymddiriedolwr, rydym wedi: <ul style="list-style-type: none"> cyflawni ein cyfrifoldeb mewn perthynas ag atebolrwydd am y gronfa/cronfeydd gan gynnwys cyflwyno adroddiadau ariannol a, lle y bo angen, cynnal archwiliadau annibynnol. 			Do	Naddo	Amh.	Cyflawni ei gyfrifoldebau yn rhinwedd ei swydd fel unig reolwr-ymddiriedolwr ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaethau lleol.	3, 6

* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 2)

	Cytunwyd?			Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:
	Do	Naddo*	Amh.	
1. Rydym wedi mabwysiadu rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol fel sy'n briodol.	✓			Wedi sefydlu yn briodol ei reolau mewnol ar gyfer pennu sut y bydd yn cyflawni ei fusnes.
2. Rydym wedi sicrhau bod rheolau sefydlog y Cyngor a rheoliadau ariannol wedi'u dilyn ar gyfer yr holl drafodiadau perthnasol.	✓			Wedi dilyn ei reolau mewnol ac wedi adolygu ei gydymffurfiaid â'r rheolau hynny
3. Mae holl bwyllgorau ac is-bwyllgorau'r cyngor wedi eu sefydlu'n briodol ac maent wedi derbyn cylch gorchwyl priodol yn nodi'r cyfrifoldebau dirprwyedig i wneud penderfyniadau ac argymhellion.			✓	Wedi sicrhau, pan fo'n briodol, bod y Cyngor wedi dirprwyo yn briodol ei gyfrifoldebau i bwyllgorau

* Dileer fel y bo'n briodol.

Cymeradwyaeth ac ardystiad y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor

Y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac am baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol	Cymeradwyaeth gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor
Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.	Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod: Nodwch y cyfeirnod cofnod a dyddiad y cyfarfod
Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol: <i>angen llofnod</i>	Llofnod Cadeirydd y cyfarfod: <i>angen llofnod</i>
Enw: <i>BETHAN JONES</i>	Enw: <i>GERaint WYN JONES</i>
Dyddiad: <i>11/06/2019</i>	Dyddiad: <i>11/06/2019</i>

Ailgymeradwyaeth ac ailardystiad gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (dim ond os bydd y ffurflen flynyddol wedi ei diwygio yn yr archwiliad)

Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol	Cymeradwyaeth gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor
Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.	Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod: Nodwch y cyfeirnod cofnod a dyddiad y cyfarfod
Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol: <i>angen llofnod</i>	Llofnod Cadeirydd y cyfarfod: <i>angen llofnod</i>
Enw: <i>angen enw</i>	Enw: <i>angen enw</i>
Dyddiad: <i>dd/mm/yyyy</i>	Dyddiad: <i>dd/mm/yyyy</i>

Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r archwilydd allanol yn cynnal yr archwiliad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd ganddo. Ar sail ei adolygiad o'r Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth ategol, mae'n nodi pa un a fydd unrhyw fater a ddaw i'w sylw yn peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

Ardystiwn ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 ar gyfer:

CYNGOR CYMUNED LLANGLIL

Adroddiad yr archwilydd allanol

~~[Ac eithrio'r materion a nodir isod]*~~ Ar sail ein hadolygiad, yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw sy'n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

~~[[Mae'r materion hyn yn ogystal a] Materion eraill nad ydynt yn effeithio ar ein barn yr ydym yn eu dwyn i sylw'r corff a'r argymhellion ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad i'r corff dyddiedig _____.]~~

Materion eraill ac argymhellion

Ar sail ein hadolygiad, tynnwn sylw'r corff at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar ein barn archwilio ond y dylai'r corff ymdrin â hwy.

(Parhewch ar daflen ar wahân os oes angen.)

Enw'r archwilydd allanol:

BDO LLP Southampton
United Kingdom

Llofnod yr archwilydd allanol:

Dyddiad:

21/9/19

Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

* Dileer fel y bo'n briodol.

Adroddiad archwilio mewnol Blynyddol ar gyfer:

Enw'r corff:

Nodwch enw'r corff

CYNGOR LLANYCIL

Mae archwiliad mewnol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2019.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ba un a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor.

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
1. Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn.	✓				
2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, cefnogwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	✓				
3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli.	✓				
4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol.	✓				
5. Cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	✓				
6. Cefnogwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.			✓		
7. Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.	✓				
8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol.	✓				

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
9. Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol.	✓				
10. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u cefnogi gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol.	✓				
11. Cronfeydd ymddiriedolaeth (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusenol). Mae'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau fel ymddiriedolwr.			✓		

Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen):

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
12.					
13.					
14.					


* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanfyddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn eu dwyn i sylw'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor dyddiedig Mai 2019.] * Dileer os nad oes adroddiad wedi'i baratoi.

Cadarnhau archwiliad mewnol

Rwyf/Rydym yn cadarnhau nad wyf i/ydym ni, fel archwilydd mewnol y Cyngor, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r corff yn ystod y blynyddoedd ariannol 2017-18 a 2018-19. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: angen enw	BLEDDYN RMY5
Cyfeiriad yr Archwilydd Mewnol:	CYNGOR GWYNEDD, CAERNARFON, LL55 1SH
Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: angen llofnod	
Dyddiad: dd/mm/yyyy	23/5/19

Nodiadau cyfarwyddyd ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol

- Rhaid i chi gymhwyso arferion priodol wrth baratoi'r ffurflen flynyddol hon. Nodir yr arferion priodol yn y Canllaw i Ymarferwyr.
- Gwnewch yn siŵr bod y Ffurflen Flynyddol wedi ei chwblhau'n llawn, h.y. dim blychau coch gwag. Ceisiwch osgoi gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r ffurflen wedi'i chwblhau. Os na allwch osgoi hyn, rhowch linell drwy'r cofnodion anghywir, sicrhewch fod y diwygiadau wedi'u tynnu at sylw'r corff gyda llythrennau cyntaf eich enw wrth eu hymyl a'ch bod wedi rhoi esboniad i'r archwilydd allanol. **Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.** Caiff ffurflenni blynyddol anghyflawn neu rai sy'n cynnwys diwygiadau heb eu cymeradwyo a/neu eu hesbonio neu hylif cywiro eu dychwelyd heb eu harchwilio a gall olygu costau ychwanegol. Gofynnwch i'ch archwilydd am gopi electronig o'r ffurflen os oes angen un.
- Gofynnwch i ail berson, y Cadeirydd neu aelod efallai, adolygu eich Ffurflen Flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawn cyn anfon y ffurflen wreiddiol at yr archwilydd.
- Gwnewch yn siŵr bod eich datganiadau cyfrifyddu yn gywir, bod y balans a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol (llinell 7 o 2018) yn cyfateb i'r balans a ddygwyd ymlaen yn y flwyddyn gyfredol (linell 1 o 2019). Esboniwch unrhyw wahaniaethau rhwng ffigurau 2018 ar y ffurflen flynyddol hon a'r symiau a gofnodwyd yn ffurflen flynyddol y llynedd.
- Rhowch esboniad llawn am unrhyw amrywiannau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Peidiwch ag anfon copi o'ch cofnodion cyfrifyddu manwl yn lle'r esboniad hwn. Mae'r archwilydd allanol am wybod eich bod chi'n deall y rhesymau dros yr holl amrywiannau. Cofiwch gynnwys dadansoddiad manwl i ategu eich esboniad a byddwch yn benodol ynghylch gwerthoedd elfennau unigol sy'n gyfrifol am yr amrywiannau.
- Sicrhewch fod y copi o'r cysoniad banc y byddwch yn ei anfon at eich archwilydd gyda'r copi o'r Ffurflen Flynyddol yn cynnwys eich **holl** gyfrifon banc a balansau ariannol. Os nad oes unrhyw eitemau cysoni, nodwch hyn a rhowch dystiolaeth o falansau'r banc. Os oes gan eich Cyngor unrhyw fuddsoddiadau byrdymor, nodwch eu gwerth ar y cysoniad banc. Dylai'r archwilydd allu gyfateb eich cysoniad banc i linell 9 yn y datganiadau cyfrifyddu. Ceir rhagor o gymorth ar gysoniadau banc yn y Canllaw i Ymarferwyr.
- Mae'n ofynnol i bob cyngor anfon gwybodaeth at yr archwilydd allanol, i ategu'r honiadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hyd yn oed os nad ydych chi wedi gwneud hynny yn flaenorol.** Bydd eich archwilydd yn dweud wrthyhych pa wybodaeth y mae angen i chi ei darparu. Sicrhewch eich bod yn darllen yr hysbysiad archwilio yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'r archwilydd wedi gofyn amdani. Dylech anfon **copïau** o'r cofnodion gwreiddiol (a ardystiwyd gan y Clerc a'r Cadeirydd fel copïau cywir) at yr archwilydd allanol ac nid y dogfennau gwreiddiol eu hunain.
- Peidiwch ag anfon unrhyw wybodaeth at yr archwilydd nad yw wedi gofyn yn benodol amdani. Nid yw hyn o fudd.
- Os bydd yn rhaid i'r archwilydd adolygu gwybodaeth nas gofynnwyd amdani, gofyn eto am wybodaeth, neu os caiff gysoniad banc anghyflawn neu esboniad o amrywiannau neu os caiff ddogfennau gwreiddiol y mae'n rhaid eu dychwelyd, bydd yr archwilydd yn mynd i gostau ychwanegol y mae ganddo hawl i godi ffioedd ychwanegol amdanynt.
- Dylech ateb pob gohebiaeth â'r archwilydd allanol yn brydlon.** Bydd hyn yn eich helpu i gyflawni eich rhwymedigaethau statudol a bydd yn lleihau cost yr archwiliad.
- Noder, os byddwch yn cwblhau'r ffurflen electronig, rhaid i chi argraffu'r ffurflen er mwyn iddi gael ei hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'i llofnodi gan y Cadeirydd cyn ei hanfon at yr archwilydd.**

Rhestr wirio cwblhau - Bydd ateb 'Naddo' yn golygu nad ydych o bosibl wedi bodloni'r gofynion		Cwblhawyd?	
Cyflwyniad cyntaf i'r archwilydd allanol		Do	Naddo
Cyfrifon	A yw'r papurau i'w hanfon at yr archwilydd allanol yn cynnwys esboniad o amrywiadau sylweddol rhwng y llynedd ac eleni?	✓	
	A yw'r cysoniad banc ar 31 Mawrth 2019 yn gyson â Llinell 9?	✓	
Cymeradwyo	A yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi ardystio'r datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rheoliad 15 (1)) erbyn 30 Mehefin 2019 fan bellaf?	✓	
	A yw'r corff wedi cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu cyn 30 Mehefin 2019 ac a yw Adran 3 wedi'i llofnodi a'r dyddiad wedi'i nodi gan yr unigolyn a oedd yn cadeirio'r cyfarfod pan roddwyd y gymeradwyaeth?	✓	
Pob adran	A yw'r holl flychau pinc yn y datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Blynyddol wedi eu llenwi ac esboniadau wedi'u rhoi pan fo angen?	✓	
	A yw'r holl wybodaeth y gofynnodd yr archwilydd allanol amdani wedi'i hanfon gyda'r Ffurflen Flynyddol hon? Cyfeiriwch at eich hysbysiad o archwiliad ac unrhyw atodlenni ychwanegol a ddarparwyd gan eich archwilydd allanol.	✓	
Os caiff y cyfrifon eu diwygio ar ôl derbyn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar faterion sy'n codi		Do	Naddo
Cyfrifon	A yw'r datganiadau cyfrifyddu sydd wedi eu diwygio wedi'u cymeradwyo ac Adran 3 wedi'i llofnodi eto a'r dyddiad wedi'i nodi eto fel tystiolaeth o gymeradwyaeth y Bwrdd i'r diwygiadau cyn eu hailgyflwyno i'r archwilydd?		